Llén natur

Bwletin 121 Ebrill 2018


# Rhifyn HETH FAWR GŴYL DDEWI

(tudalennau canol)



Socan eira
Alun Williams
(Cymuned Llên Natur FB)

## Diwrnod da o waith



Gofynnodd Sion i griw Llên Natur argymell rhywle y gallasai fynd i gael llun o wiwer goch. Awgrymodd Bethan Wyn Jones Llyn Parc Mawr, Niwbwrch. Aeth Sion yno yn syth. Ni ddaeth oddiyno yn waglaw.....

## Gwenynen mewn pecyn blodfresych




Wedi synnu bod yna wenynen mewn pac o flodfresych heddiw (25 Chwefror 2018). Mi roedd yn cario llwyth o baill ac wedi dod o Sbaen. Oes 'na gymaint â hyn o flodau'r adeg yma o'r flwyddyn yno i gynnal gwenyn?

Dyma'r arbenigwr gwenyn Oliver Prys-Jones: "*Yes, there are plants flowering in Spain that would be visited by bees at this time of year. Not exceptional no. A photo helps exclude a honeybee like species such as an Andrena*." Dywedodd Oliver ei fod yn farw mae'n debyg cyn mynd i fewn i'r pecyn - fel arall fyddai wedi rwbio'r paill i ffwrdd.

## Dwshin del yn y Ffair Garu....




....ynteu helynt o ciaridyms y strydoedd cefn?
(Clydach, Cwm Tawe 14 Mawrth 2018) **Dewi Lewis**

Un enw torfol Saesneg ar haid o biod" meddai Dewi, "yw '*mischief of magpies*'; mi fyddai 'helynt o biod' yn gweddu yn iawn yn y Gymraeg." Be mae Gwyn Tomos wedi galw 'helynt o biod' tybed?

Dyma hen gofnod gydag ymdrech i esbonio'r ffenomenon gan FJ Stubbs yng nghylchgrawn British Birds, 1909:

> *On January 24th, 1909, ...in a small wooded valley in south-east Lancashire, we came across a small party of eight birds, and decided to watch them. They were in the branches of a sycamore, and were jumping about and parading in a most ludicrous manner. It would be impossible to describe in a few words the actions of these birds, but there was no room for doubt as to the real meaning of the function. Although crowded together they were evidently in pairs ; one would "show off" to its mate, and when she (?) turned away, he (?) would promptly jump round to be in front of her. Owing to the trim way in which the birds carried themselves (with feathers pressed close to the body) they seemed slimmer, and the legs showed more of the tibiae, than usual. Every few seconds the head-feathers would be rapidly erected and depressed, and the tail uplifted and opened and closed like a fan — an action that I remember noticing in an amorous Jackdaw. The voices of the birds were markedly different from those of other seasons. Sometimes one of these Magpies would leave the others and take a course through the trees in the wood, but it was always followed by a companion. On these journeys they approached within a few feet of our heads; we were greatly struck by the unexpected grace of flight displayed on their amatory excursions.*

## Dadmar




Meddai Morwen Jones ar ôl eira hwyr 18 Mawrth eleni: " Dwi wrth fy modd efo'r gerdd fach gynnil yma gan Edward Thomas".

**Dilynwch a chyfranwch i Cymuned Llên Natur ar Facebook**

## Drudwennod Bae Colwyn



Gwyrth!  Heno (Chwefror 25, 2018) ym Mae Colwyn yn edrych i gyfeiriad Llandrillo yn rhos. Drudwyod yn paratoi i glwydo ger yr hen bier. Cannoedd, os nad miloedd ohonynt! Ond, yn fuan daw'r cyfan i ben pan ddaw y gwaith o ddymchwel y pier i'w derfyn.

## Tom Gogarth Fawr




Nid pawb sy'n byw drws nesaf i gromlech! Ond, dyna sy'n wir am Tom Parry, sy'n hanesydd lleol o fri, ac yn gwybod popeth sydd werth ei wybod am hanes Llandudno.

O ddringo dros gamfa i'r cae drws nesaf fe wêl Gromlech Llety'r Filiast.

**Gareth Pritchard**

## Lleuad coch



Lleuad coch am 4.30 bore yma (26 Chwefror) o'r Waunfawr. Unrhyw esboniad....?

Trey McCain: "Oedd 'na dipyn o fwg yn yr awyr neithiwr yn doedd? Ella buasai hynny yn ei esbonio."

Olwen Evans: Llosgi'r grug tua'r mynyddoedd pnawn ddoe - i'w weld o Dinas Dinlle.

Welish i mo'r tannau grug (eithin?) ond mae hyn yn gofnod da ynddo'i hunan - ffermwyr yn gwneud eu defod gwanwynol mewn digon o bryd i osgoi'r tymor nythu (ac wrth gwrs yn manteisio ar y tywydd ffafriol).

OND... y cwestiwn nesa yw 'a welodd rhyw fore godwyr mewn ardaloedd eraill leuad coch?'

Iolo Williams: Roedd llawer o lwch ar geir o gwmpas y canolbarth ddoe. Dwi'n cofio tywod y Sahara'n troi'r lleuad a'r haul yn goch rhai blynyddoedd yn ôl. Tybed ai hyn oedd yn gyfrifol?

Meddai Don Perkins (meteorolegydd o Lansadwrn): "*Best I can do is say that there was Saharan dust in the vicinity over the Atlantic heading in at midnight that might have reached you at 4.30 am. I did detect some dust in following days, not on the 26th, this was complicated by the snow, but I have not looked into this* ...[oherwydd problemau cyfrifiadur]"

## Llyffantod Cwm Cywion



Llyffantod yn brysur yng Nghwm Cywion heddiw! Ma raid bo'r gwanwyn 'di cyrraedd o'r diwedd **Graham Williams**

# Storm eira mawr Gŵyl Ddewi: CREADURIAID



Crancod wedi eu tirio....



galaru am gwtiad aur



Giach yn gobeithio...



...a gwylannod yn cael gwlêdd



a giach wedi anobeithio...



Dim ond ei ôl sy'n aros...



Glaswellt y gweunydd wedi chwythu ei blwc

**Mae hanes rhain i gyd ar Grwp Facebook Cymuned Llên Natur**

## Storm eira mawr Gwyl Ddewi: Y TIR


Rhaeadr Fawr Abergwyngregyn dan rew


Llanast ym Mharc Dydli



Spigyn rhew (math o bibonwy)


Lon Clegyr, Llanrug


Solfach, Ynys Enlli





Llandudno



Cwm Idwal

**Mae hanes rhain i gyd ar Grŵp Facebook Cymuned Llên Natur**




2007 cynharaf

Ionawr

1 **1 dail y gwyddfid yn ymddangos yn gryf o'u blagur Alltgoed Fawr 15 1**

Chwefror

4 **2 grifft llyffant Cae'r Waun ddoe, cynta'r flwyddyn, 2 2**

7 

Bore braf a haulog. Tori grass Cynefin tro cynta eleni. Bodorgan GR 2 2

3 **llygad ebrill yn eu blodau ar hyd ochr y lon ger Ysgubor Hen ardal Chwilog ddoe 2 2**

gloyn peunog yn swatio ac yn effro yng nghysgod un o fwynfeydd Trwyn y Tâl, Trefor 4 2

eira dros nos, ysgolion wedi cau, canslo cyfarfod tirlun aber 8 2

2 **Cnocell werdd yn "chwerthin" yn y coed ger Tyncaenewydd, Waunfawr 13 2**

**pryf hofren Eristalis tenax yn swrth yn yr ardd ddoe... 19 2**

**2018 (eleni)**

4 **Y grifft cyntaf imi weld leni - ei weld heddiw yr 2il o Chwefror mewn ffos wrth Lon Gwyrfai rhwng Rhyd Ddu a Beddgelert.**

5 **10 o Chwefror, 2018 un fronfraith yn canu'n ddi-dor am sbelan go dda ger Aldi, Porthmadog. Y gyntaf eleni imi ei chlywed ac yn siwr o fod yn eithriadol o gynnar.**
Robin and Song Thrush song rings out across the village in the half-light 18 1 07

6 **Briallu [yn ei flodau] yn Penbryn, Sarnau, Ceredigion heddiw ac eira ar y ffordd yno ar hyd Llwybr yr Arfordir o Langrannog 11 2**

7 **Llygad Ebrill yn blodeuo, Borth y Gest 20 2**
llygad ebrill yn eu blodau ar hyd ochr y lôn ger Ysgubor Hen ardal Chwilog ddoe 3 2 07-

8 **Heddiw, yn fuan y bore es yno eto ag mi welais bod [y fronwen ddŵr] wedi dechrau adeiladu nyth at y flwyddyn hon 21 2**

9 **Giach yn y cae ger Bryn Melyn (un o'r ychydig welwyd yn Waun y gaeaf yma. Lleuad coch neithiwr 4.30am. 26 2**

2010 hwyraf

4 **Grifft llyffant cynta'r flwyddyn yng nghaeau Cae'r Waun ddoe 21 2**

3* ***Eristalis tenax*** **cynta'r flwyddyn ar y ffenast bore ma.13 4 2010* (EBRILL sylwer)**



Gardd Gwelfor ddechrau Mai 2011 (meddai John Bratton:"It is tenax or pertinax. You can't see much of the front tarsi, but what you can see looks dark, so that would be tenax").

**Mae'r graffiau T-sum yn ein caniatau i gymharu dyfodiad y gwanwyn ac effeithiau posib twf - neu ddiffyg twf - y tymheredd ar fywyd gwyllt. Dyma ychydig o enghreifftiau (y rhifau yn cymharu sylwadau tebyg).**

## Haearnau Ceffyl



Dyma ddwy engraifft arall i mi or llafurio caled oedd yn rhan o fywyd bob dydd i'r hen bobol oedd yn ffermio a thrin y tir yng nghaeau 'rhen Gymru. Dyma rhai o bres ceffylau gwedd ar byclau dwi wedi darganfod dros yr blynyddoedd wrth chwilota y pridd. Pan fydda'i yn darganfod pres ceffyl neu bwcl yn y pridd, fe fydda'i yn meddwl ar unwaith am yr ymdrechion y foment honno bell yn ôl gan yr anifail ar bobol gwnaeth iddynt dorri a cholli y trysor.

**Walter Hanks**



Chwith uchaf: Gadawodd fy Mam ei hysgol Uwchradd yn 13 oed i weithio adre ar fferm ei Thad. **Un o'i thasgau oedd i reidio ar gefn y canol o'r triawd o geffylau** a ddefnyddiwyd i aredig y tir, er mwyn eu cadw o dan reolaeth. **Hugh Gwynne**



Chwith isaf: Dyma lun a gymerwyd yn y Groeslon yn y 1920au yn y caeau lle mae stad tai Y Garreg heddiw. Roedd y ceffyl, o'r enw Bwlar yn perthyn i William Evans, Ty Rhos. Fel y gwelwch mae **ganddo fo addurn pres ar ei dalcen**. **Gwyn Edwards**

## Yng ngolau'r car



Syrpreis bach neis gweld Tylluan Glustiog ar y ffordd adra o dynnu lluniau'r sêr heno - dim ymddiheuriadau am yr ansawdd, dyna'r gora' oedd yn bosib yng ngolau'r car. Trawsfynydd, Cyhydnos y Gwanwyn (20 Mawrth) 2018.

## 'Sliwod afon Nanmor



"Graffiti diddorol wedi ei naddu gyda phwyll a sgil ar Bont Talyrni ar Afon Nanmor, ger Hafod Garregog. Beryg bod na ddim sliwod y maint yma yn yr afon bellech!" **Graham Williams**

Yr unig ddyddiadau (yn y ddelwedd o leiaf) ar y graig yw 1900 a 1933. Mae yslywod wedi prinhau yn aruthrol - bellach mae nhw ar restr rhywogaethau mewn perygl o be dwi'n ei gofio. Oes yna rhywun wedi dal sliwen yn yr afon hon o gwbl yn y blynyddoedd diwethaf? Mwy o wybodaeth rhywun? (FB)

## Sliwod Afon Nanmor




Olion cyn-hanesydd ol-rewlifol bele goed yn ogof Garn-y- Bica, Trefil, Mynwy. Mwy o hanes yma

## Cip olaf ar frigau'r gaeaf



onnen | masarnen y maes | bedwen | gwernen | ysgawen | collen | ffawydden | castan-wydden | criafolen



derwen | pisgwydden | lelog | draenen wen | draenen ddu | llarwydd | masarnen | rhosyn gwyllt | llwyfen

**Adnodd i athrawon. Rhannwch.....**

**Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd**

**(Rhif Elusen: 1126027)**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk